Polisi Addoli ar y Cyd

Amcanion a phwrpas

Amcanion a phwrpas addoli ar y cyd yw i:

- ddarparu cyfle i blant addoli Duw;
- galluogi plant ystyried materion ysbrydol a moesol;
- galluogi plant archwilio eu credoau eu hunain;
- annog cyfranogiad ac ymateb;
- datblygu ymdeimlad o ysbryd cymunedol yn y plant;
- hyrwyddo ethos cyffredin, gyda gwerthoedd cyfrannol, ac i atgyfnerthu ymagweddau cadarnhaol;
- addysgu'r plant sut i addoli.

Addoli ar y cyd

Rydym yn deall addoli i fod yn weithred neu achlysur arbennig gyda'r pwrpas o ddangos parchedigaeth at Dduw. Mae addoli ar y cyd yn golygu aelodau o'r ysgol yn dod at ei gilydd a chyfranogi mewn gwasanaeth.

Yn unol â'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988, sydd yn datgan y dylai addoli ar y cyd fod 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol eang', fel arfer, mae ein gwasanaethau yn seiliedig ar ddysgeidiaethau Crist a thraddodiadau'r Eglwys Gristnogol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal ein gwasanaethau mewn dull sydd yn sensitif i grefyddau a chredoau holl aelodau'r ysgol.

Er bod mwyafrif y gweithredoedd addoli yn ein hysgol yn Gristnogol, rydym hefyd yn cynnal gwasanaethau sydd yn adlewyrchu traddodiadau crefyddau gaiff eu cynrychioli yn yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Trefniadaeth addoli ar y cyd

Yr ydym yn cynnal gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd. Mae hyn yn ffurfio rhan o bob gwasanaeth boreol, gall fod un ai'n wasanaeth ysgol-gyfan (er ar brydiau rydym hefyd yn cynnal gwasanaethau babanod ac iau ar wahân), neu'n wasanaeth dosbarth.

Yr ydym yn cynnal gwasanaethau mewn modd urddasol a pharchus. Dywedwn wrth y plant fod amser gwasanaeth yn gyfnod o fyfyrio tawel. Ystyriwn ei fod yn amser arbennig, a disgwylir i'r plant ymddwyn yn briodol. Gofynnwn iddynt fod yn dawel a meddylgar, i wrando'n ofalus ar y dysgeidiaethau, ac i gyfranogi'n llawn yn y gweddïau a'r emynau. Rydym yn creu naws briodol trwy ddefnyddio cerddoriaeth, ac ar brydiau canhwyllau neu wrthrychau eraill, i ganolbwyntio sylw'r plant.

Fel arfer, caiff y gwasanaethau eu harwain gan y pennaeth neu aelodau arall o'r staff, ond ar brydiau cânt eu harwain gan glerigwyr lleol neu gynrychiolwyr o grwpiau crefyddol lleol.

Cymerwn themâu ein gwasanaethau oddi wrth draddodiadau'r ffydd Gristnogol, ac rydym yn dathlu'r gwyliau a nodi digwyddiadau'r calendr Cristnogol. Ar adegau, mae themâu ein gwasanaethau yn perthyn i'r testunau rydym yn dysgu fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Caiff y gwasanaethau eu cynllunio ymhell cyn y dyddiad maent yn cymryd lle.

Mae ein gwasanaethau yn adlewyrchu cyflawniadau a dysgu'r plant. Rydym yn annog y plant i gyfranogi yn y gwasanaethau trwy ddangos eu gwaith i'r plant eraill a thrwy godi materion maent wedi trafod yn eu dosbarthiadau. Mae gwasanaethau yn darparu cyfle i wobrwyo plant am eu cyflawniadau o fewn a thu allan i'r ysgol. Maent hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo ethos yr ysgol, sef y caiff pob plentyn ei werthfawrogi, a phob cyflawniad ei gydnabod. Mae Ysgol Melin Gruffydd yn ysgol lwyddiannus a byddwn yn parhau i ddathlu llwyddiant pob un o'm plant yn ein gwasanaethau.

Bob tymor ceir gwasanaethau dosbarth a gwahoddir y rhieni i ymuno â ni. Rydym yn annog eu presenoldeb, gan fod hyn yn hyrwyddo ysbryd cymunedol ac yn dangos yr ysgol a'r cartrefi yn cydweithio i gefnogi cyflawniadau'r plant.

Hawl i neilltuo

Disgwylir i bob plentyn fynychu'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gall unrhyw riant wneud cais i ganiatáu i'w plentyn gael ei esgusodi o addoli crefyddol, a bydd yr ysgol yn gwneud trefniadau amgen i oruchwylio'r plentyn yn ystod y rhan yna o'r gwasanaeth. Nid oes rhaid i rieni egluro na roi rheswm am eu cais. Mae'r hawl yma i neilltuo yn cydymffurfio gyda Deddf Addysg 1944, gafodd ei ailddatgan yn Neddf Diwygio Addysg 1988.

Mae'r pennaeth yn cadw cofnod o bob plentyn gaiff ei neilltuo oddi wrth addoli ar y cyd.

Monitro ag adolygu

Mae monitro'r polisi a'r arfer o addoli ar y cyd yn rôl aelod enwebedig o'r corff llywodraethol, sydd hefyd yn gyfrifol am addysg grefyddol. Mae'r llywodraethwr dan sylw yn cysylltu gyda'r pennaeth cyn adrodd i'r llywodraethwyr.

Caiff y polisi yma ei adolygu yn ôl yr angen gan y corff llywodraethol.